



Gweinyddiaeth
Cyfiawnder

Gweddnewid ein system gyfiawnder: crynodeb o ddiwygiadau ac ymgynghoriad

Medi 2016



Gweddnewid ein system gyfiawnder:
crynodeb o ddiwygiadau ac ymgynghoriad

Cyflwynwyd i'r Senedd gan yr Arglwydd Ganghellor
a'r Ysgrifennydd Gwladol dros Gyfiawnder o dan
Orchymyn Ei Mawrhydi

Medi 2016



© Hawlfraint y Goron 2016

Trwyddedwyd y cyhoeddiad hwn o dan delerau Trwydded Llywodraeth Agored v3.0 ac eithrio ble nodir yn wahanol. I weld y drwydded hon ewch i nationalarchives.gov.uk/doc/open-government-licence/version/3 neu ysgrifennu i Information Policy Team, The National Archives, Kew, London TW9 4DU, neu e-bostio: psi@nationalarchives.gsi.gov.uk.

Ble'r ydym wedi nodi unrhyw wybodaeth hawlfraint trydydd parti, bydd angen i chi gael caniatâd gan ddeiliaid yr hawlfraint o dan sylw.

Mae'r cyhoeddiad hwn ar gael yn www.gov.uk/government/publications

Dylid anfon unrhyw ymholiad mewn perthynas â'r cyhoeddiad hwn atom yn

Courts Reform Policy
Ministry of Justice
Post point 3.41
102 Petty France
London SW1H 9AJ

Ffôn: 020 3334 3555

Ffacs: 020 3334 2233

E-bost: CourtsReformPolicy@justice.gsi.gov.uk

ISBN Argraffiad 9781474136471

ISBN Gwefan 9781474136488

ID 13071611 09/16

Argraffwyd ar bapur sy'n cynnwys o leiaf 75% o gynnwys ffibr wedi'i ailgylchu.

Argraffwyd yn y DU gan Williams Lea Group ar ran Reolwr Swyddfa Llyfrfa Ei Mawrhydi.

Cynnwys

| | |
|--|-----------|
| Rhagair | 3 |
| Gweddnewid ein system gyfiawnder - crynodeb o ddiwygiadau | 5 |
| 1 Pennod Un: trosolwg - system gyfiawnder fodern | 5 |
| 2 Pennod Dau: Troseddol | 8 |
| 3 Pennod Tri: Sifil | 10 |
| 4 Pennod Pedwar: Teulu | 11 |
| 5 Pennod Pump: Tribiwnlysoedd | 12 |
| 6 Pennod Chwech: Casgliad a Chamau Nesaf | 14 |
| Gweddnewid ein system gyfiawnder: Ymgynghoriad | 15 |
| Ynglŷn â'r ymgynghoriad hwn | 15 |
| 7 Pennod Saith: Ymgynghoriad | 16 |
| 8 Crynodeb o gwestiynau | 25 |
| Amdanoch chi | 27 |
| Manylion cysylltu/Sut i ymateb | 28 |
| Egwyddorion ymgynghori | 30 |

Gweddnewid ein system gyfiawnder - crynodeb o ddiwygiadau ac ymgynghoriad

Rhagair

Heddiw mae'r Arglwydd Ganghellor, Yr Arglwydd Brif Ustus ac Uwch Lywydd y Tribiwnlysoedd wedi cyhoeddi datganiad ar y cyd ynglŷn â'u cydweledigaeth ar gyfer dyfodol Gwasanaeth Llysoedd a Thribiwnlysoedd Ei Mawrhydi.



Mae'r system gyfiawnder yng Nghymru a Lloegr yn cael ei pharchu'n rhyngwladol fel un o'r goreuon yn y byd; ein barnwriaeth gadarn ac annibynnol, ein proffesiwn cyfreithiol o safon fyd-eang a'n hymlyniad at reolaeth y gyfraith yw sail cymdeithas wâr ac economi gref. Mae'r Llywodraeth yn buddsoddi dros £700m yn y llysoedd a'r tribiwnlysoedd a mwy na £270m yn y system gyfiawnder troseddol, sy'n arwydd o'n hymrwymiad i adeiladu ar ein cryfderau a chynnal ein henw da rhyngwladol. Mae'r byd yn symud yn ei flaen ac mae'n rhaid i'n system gyfiawnder symud yn ei flaen hefyd er mwyn bodloni anghenion a disgwyliadau newidiol pawb sy'n defnyddio ein llysoedd a'n tribiwnlysoedd.

Mae'r datganiad gan Yr Arglwydd Ganghellor, Yr Arglwydd Brif Ustus ac Uwch Lywydd y Tribiwnlysoedd yn egluro sut fydd y gwaith yr ydym yn ei wneud yn darparu i'r cyhoedd system gyfiawnder sy'n:


- **Gyfiawn:** mae'r penderfyniadau a'r deilliannau yn deg, mae'r farnwriaeth yn cael ei chefnogi gan brosesau sy'n fodern, tryloyw a chyson, ac mae achosion tebyg yn cael eu trin yn yr un modd. Mae barnwriaeth gref a phroffesiynau cyfreithiol meritocrataidd yn defnyddio'r gronfa ehangaf posibl o dalentau, er mwyn cynnal hyder y cyhoedd ac atgyfnerthu rheolaeth y gyfraith,
- **Cymesur:** mae cost, cyflymder, cymhlethdod a maint gwarchodaeth wrthwynebol yn gwneud synnwyr ac yn gymesur i natur a gwerth yr achos dan sylw. Bydd system effeithiol yn arbed amser ac arian i bobl, ac yn lleihau effeithiau achosion cyfreithiol ar eu bywydau.
- **Hygyrch:** Mae'r system yn fforddiadwy, yn ddealladwy ac yn hygyrch i'w defnyddio gan bawb, yn gyfleus i'r rhai na all fod yn bresennol eu hunain, ac yn gefnogol i'r rhai nad ydynt yn teimlo'n gyfforddus â'r gyfraith neu dechnoleg.

Yn ymarferol, bydd yr egwyddorion hyn yn darparu **cyfiawnder cyflym a chadarn**.

Mae'r Weinyddiaeth Gyfiawnder, mewn partneriaeth â'r farnwriaeth, yn gweithio'n galed i sicrhau y gallwn wireddu'r weledigaeth uchelgeisiol a gyflwynwyd heddiw gan Yr Arglwydd Ganghellor, Yr Arglwydd Brif Ustus ac Uwch Lywydd y Tribiwnlysoedd. Mae eu datganiad ar y cyd yn dangos ymrwymiad cryf a pharhaus y farnwriaeth tuag at gefnogi'r rhaglen ddiwygio, ond cyfrifoldeb y Weinyddiaeth Gyfiawnder yw datblygu a gweithredu cynigion y polisi fydd yn newid y system ac yn gwireddu'r weledigaeth honno.

Gweddnewid ein system gyfiawnder - crynodeb o ddiwygiadau ac ymgynghoriad

Mae'r ddogfen hon yn amlinellu beth mae'r Weinyddiaeth Gyfiawnder yn ei wneud i ddiwygio'r system gyfiawnder, ac mae'n gwahodd y cyhoedd a rhanddeiliaid â buddiant i fynegi eu safbwyntiau ar fesurau penodol. Pan fo'n ofynnol, byddwn yn cyflwyno deddfwriaeth ymhen cyfnod priodol o amser.



Syr Oliver Heald QC AS
Gweinidog Gwladol

Gweddnewid ein system gyfiawnder - crynodeb o ddiwygiadau

1 Pennod Un: trosolwg - system gyfiawnder fodern

- 1.1 Mae system gyfiawnder deg a gweithredol yn sail i bob cymdeithas wâr. Mae'n penderfynu ar euogrwydd mewn achosion troseddol, yn barnu ar anghydfod rhwng unigolion, teuluoedd a busnesau, yn gwarchod plant sy'n agored i niwed ac yn caniatáu i'r cyhoedd sicrhau bod y Llywodraeth yn atebol.
- 1.2 Mae ein system bresennol yn gwneud hyn oll, ond rydym eisiau iddi fod yn hyd yn oed cryfach; yn gyflymach ac yn haws i'w defnyddio, gyda gwell profiadau i'r rhai sy'n ei defnyddio, a gwell gwerth i'r trethdalwr. Mae angen gwneud nifer o newidiadau er mwyn gwreiddu'r weledigaeth o system gyfiawnder fodern a gyflwynwyd yn y datganiad ar y cyd gan Yr Arglwydd Ganghellor, Yr Arglwydd Brif Ustus ac Uwch Lywydd y Tribiwnlysoedd.
- 1.3 Mae'r crynodeb hwn o ddiwygiadau yn amlinellu'r holl newidiadau yr ydym yn eu gwneud er mwyn gwella ein system a gwreiddu'r weledigaeth honno. Rydym yn gwahodd safbwyntiau ar fesurau penodol - mae mwy o fanylion am y cynigion hyn ar gael ym Mhennod 7 y ddogfen hon.
- 1.4 Mae'r holl fesurau a gyflwynir yn y ddogfen hon yn ymlynu at egwyddorion diwygio; cyfiawn, cymesur a hygyrch.
- 1.5 I ddarparu system sy'n **gymesur** ac wedi'i theilwra ar gyfer cymhlethdod a difrifoldeb achosion unigol, rydym yn defnyddio dull cyson ar draws awdurdodaethau, yn cynnwys:
 - i. Defnyddio mwy o swyddogion achos ar gyfer tasgau bob dydd: Mae barnwyr yn treulio gormod o'u hamser yn delio â materion cyffredin a syml na wrthwynebir y gallai staff llysoedd ddelio'r un mor effeithiol â nhw o dan awdurdod barnwrol. Pan fo'n briodol, bydd staff wedi'u hyfforddi'n arbennig yn gallu gwneud peth o'r gwaith hwn er mwyn helpu i gyfiawnder symud yn ei flaen yn gyflymach.
 - ii. Mwy o benderfyniadau yn cael eu gwneud "ar y papurau": Pan fo achos yn gymharol syml neu arferol, bydd sylwadau yn cael eu cyflwyno ar-lein yn ysgrifenedig i farnwr eu hystyried y tu allan i ystafell llys traddodiadol, heb yr angen am wrandawriad ffisegol, sy'n arwain at brofiad mwy cyfleus i bawb.
 - iii. Mwy o rith-wrandawiadau: Pan fo angen i farnwr wrando ar bartïon yn cyflwyno eu dadleuon, mewn nifer o achosion bydd yn bosibl cynnal y gwrandawiadau dros y ffôn neu ddefnyddio cynadleddau fideo, heb yr angen i bartïon deithio i adeilad llys. Bydd yna le pwysig o hyd i wrandawiadau mewn llys ffisegol ar gyfer achosion troseddol ac achosion difrifol neu gymhleth eraill, ond pan fo'n briodol, bydd rhith-wrandawiadau yn cynnig dewis amgen hawdd a chyfleus i bawb.

- iv. Mwy o achosion yn cael eu datrys y tu allan i'r llys: Mewn achosion priodol, byddwn yn annog partïon i setlo eu dadleuon eu hunain, heb ymyrraeth y llysoedd.
- 1.6 Rydym hefyd yn gweithio i sicrhau bod ein prosesau yn **hygyrch** ac yn syml fel eu bod yn haws i bawb eu defnyddio, a bydd nifer o'n gwasanaethau yn symud ar-lein - er enghraifft:
- i. Rhoi ceisiadau am brofiant ar-lein: Gall delio a materion profiant fod yn anodd a chymhleth ar adeg pan fo pobl yn delio â galar. Rydym yn digideiddio'r system profiant er mwyn galluogi i'r broses gyfan gael eu rheoli ar-lein, o gyflwyno cais i'r datrysiad, gan ei gwneud yn broses haws a thecach pan fo achosion yn ddiwrthwynebiad.
 - ii. Rheoli ysgariad ar-lein: Mae gwaith wedi cychwyn eisoes ar ganiatáu i geisiadau am ysgariadau gael eu gwneud a'u rheoli ar-lein, gan gael gwared â pheth o'r fiwrocratiaeth o achosion sy'n aml yn faith ac yn llawn straen, a symleiddio'r broses weinyddol heglog.
 - iii. Digideiddio ceisiadau am Atwrneiaeth Arhosol: Mae caniatáu i bobl wneud trefniadau ar gyfer amser yn y dyfodol pan na fyddant efallai yn gallu gwneud penderfyniadau eu hunain yn broses fuddiol ond yn un sy'n achosion straen emosïynol yn aml. Mae ceisiadau wedi cael eu digideiddio'n rhannol ers 2014, gan arwain at lai o geisiadau'n cael eu dychwelyd oherwydd camgymeriadau. Byddwn yn adeiladu ar hyn drwy droi'r system yn un gwbl ddigidol er mwyn darparu gwasanaeth cyflymach.
- 1.7 Drwyddi draw byddwn yn symleiddio ffurflenni ac yn gwneud ein prosesau'n fwy syml fel eu bod yn haws i bawb eu deall.
- 1.8 Mae nifer o'r newidiadau hyn wedi'i dylunio i ddiweddarau'r system gyfiawnder ar gyfer y byd modern ac i fanteisio ar ddatblygiadau mewn technoleg a darparu gwasanaeth cyflymach a mwy hygyrch i ddefnyddwyr llysoedd a thribiwnlysoedd. Fodd bynnag, mae'n bwysig ein bod yn ystyried effeithiau anfwriadol y dechnoleg hon er mwyn sicrhau bod y system yn parhau i fod yn **gyfiawn**. Byddwn yn:
- i. Darparu system sy'n gweithio i bawb: Mae prosesau digidol ac ar-lein yn hawdd ac effeithiol i nifer o bobl, ond mae'n rhaid i'r system gyfiawnder weithio hefyd i bobl nad ydynt yn dymuno neu'n gallu cael mynediad i wasanaethau ar-lein. Mae'n rhaid i ni ddarparu llwybr mynediad arall i bob gwasanaeth sy'n symud ar-lein. Buasem yn croesawu eich safbwyntiau ar sut i sicrhau nad oes neb yn cael ei eithrio o gyfiawnder drwy wneud hyn. Mae mwy o fanylion ar gael yn ddiweddarach ym Mhennod 7.1 ble'r ydym hefyd yn gofyn am safbwyntiau ar ein dull arfaethedig.
 - ii. Parhau i sicrhau cyfiawnder agored: Un o egwyddorion craidd ein system gyfiawnder yw bod cyfiawnder yn agored. "Mae'n fwy nag eithaf pwysig, mae'n hanfodol bwysig y dylai cyfiawnder nid yn unig cael ei weithredu, ond y dylai pobl hefyd weld yn amlwg ac yn ddiamheuol ei fod yn cael ei weithredu," fel y dywedodd Yr Arglwydd Prif Ustus Hewart yn 1924. Bydd egwyddor cyfiawnder agored yn cael ei ategu a bydd y cyhoedd yn dal yn gallu gweld a chlywed gwrandawiadau amser real, tra'n bod yn parhau i warchod preifatrwydd pobl sy'n agored i niwed.

Newidiadau yn ôl awdurdodaeth

- 1.9 Mae penodau 2 - 5 yn amlinellu'r newidiadau sydd eisoes wedi cychwyn a'r rhai yr ydym yn bwriadu eu gwneud yn awdurdodaethau llysoedd troseddol, sifil a theulu, yn ogystal ag yn y system tribiwnlysoedd. Bydd y newidiadau hyn yn gweithio gyda'i gilydd i wireddu'r weledigaeth o system gyfiawnder gyfiawn, gymesur a hygyrch sy'n barod ar gyfer yr oes fodern.

2 Pennod Dau: Troseddol

2.1 Yn y llysoedd troseddol, rydym yn gweithio gyda'n partneriaid ym maes cyfiawnder troseddol, yn cynnwys Gwasanaeth Erlyn y Goron (CPS) a'r heddlu i symleiddio'r system, yn arbennig drwy gyflwyno platfformau TG newydd i sicrhau y delir â throeddau yn y modd mwyaf cymesur a phriodol. Bydd hynny'n lleihau aildroseddu yn ogystal â gwella profiadau i ddiodefwrwr a thystion yn y system. Byddwn yn gwneud hynny drwy:

2.2 Gwneud y llysoedd yn fwy hyblyg

- i. Alinio'r llysoedd troseddol: Mae'r llysoedd Ynadon a Llysoedd y Goron yn delio â gwahanol lefelau o droseddau, ond mae'n rhaid iddynt weithio'n well gyda'i gilydd er mwyn darparu gwasanaeth mwy effeithlon. Rydym yn gweithio gyda'r farnwriaeth ar newidiadau strwythurol a gweithdrefnol fydd yn rhoi i'r uwch farnwriaeth drosolwg gliriach o arweinyddiaeth farnwrol yn yr awdurdodaeth droseddol, a hyblygrwydd i'w reoli. Bydd hyn yn galluogi Llysoedd y Goron a'r llysoedd ynadon i weithio'n agosach - bydd gwell arweinyddiaeth ac alinio yn gwella perfformiad y llys er mwyn pawb. I ategu hynny, byddwn yn dod â strwythur y llysoedd yn agosach at ei gilydd drwy ddiwygio ardaloedd cyfiawnder lleol a'i gwneud yn haws i drosglwyddo achosion rhwng Llys y Goron a'r llys Ynadon pan fo hynny'n briodol - bydd cychwyn yn y man cywir yn golygu bydd y broses yn symlach a haws i ddiodefwrwr a diffnyddion.
- ii. Ei gwneud yn haws i dystion sy'n agored i niwed ac sy'n cael eu bygwth (yn cynnwys diodefwrwr) roi tystiolaeth: Byddwn yn cyflwyno croesholi cyn treial mewn achosion Llys y Goron, fydd yn galluogi tystion sy'n agored i niwed ac sy'n cael eu bygwth i recordio eu croesholiad ymlaen llaw, sy'n golygu na fydd angen i'r tyst fynychu'r treial bob amser. Bu i gynllun peilot ganfod bod y weithdrefn hon wedi arwain at dystion yn cyflwyno tystiolaeth mewn hanner yr amser ag y byddai wedi'i gymryd mewn treial. Rydym yn credu y byddai ymestyn hynny yn lleihau trallod i ddiodefwrwr a thystion ac yn gwella eu profiad cyffredinol o'r system gyfiawnder.

2.3 Ymdrin ag ymddygiad troseddwr

- i. Cyflwyno llysoedd datrys problemau: Rydym yn archwilio mwy i gyfleoedd o ddefnyddio dulliau datrys problemau gyda'r farnwriaeth a chasglu'r gronfa dystiolaeth. Rydym yn parhau i dreialu'r dull hwn mewn lleoliadau ar draws y DU.
- ii. Defnyddio penderfyniadau y tu allan i'r llys: Byddwn yn defnyddio penderfyniadau y tu allan i'r llys mewn achosion priodol, er mwyn helpu i newid ymddygiad troseddwr ar y cyfle cynharaf posibl - gyda chanlyniadau chwim a phendant i droseddwr nad ydynt yn cydymffurfio â'r amodau a atodir.

2.4 Gwella prosesau a thechnoleg er mwyn creu cyfiawnder mwy effeithlon a digidol

- i. Llifinio'r broses: Rydym yn gwneud newidiadau i'r ffordd y mae achosion yn mynd rhagddynt drwy'r llysoedd troseddol, yn cynnwys cael gwared ag ymweliadau diangen â'r llys (megis ymddangosiadau cyntaf mewn llys ynadon ar gyfer achosion a ellir ond eu treialu yn Llys y Goron), cyflwyno proses fwy effeithlon er

mwyn dyrannu achosion i Lys y Goron neu'r llysoedd ynadon a chaniatáu i benderfyniadau syml gael eu gwneud drwy system ar-lein newydd (gweler isod).

- i. Defnyddio technoleg i wneud prosesau'n fwy effeithlon: Byddwn yn cynyddu'r defnydd o gyswllt fideo a thechnoleg cynadleddau ffôn a fideo er mwyn gwneud gwrandawiadau'n haws ac yn fwy cyfleus i bawb, yn cynnwys dioddefwyr a thystion ac asiantaethau'r system gyfiawnder troseddol. Byddwn yn gweithio gyda'r heddlu i gynnal gwrandawiadau mechnïaeth drwy gyswllt fideo o orsafoedd yr heddlu er mwyn lleihau'r angen i gadw rhai troseddwyr yng nghelloedd yr heddlu dros nos. Mewn achosion priodol bydd troseddwyr yn gallu pledio'n euog, cael eu heuogfarnu a'u dedfrydu ar yr un diwrnod drwy gyfrwng cyswllt fideo o orsafoedd yr heddlu.
- ii. Cyflwyno system TG gydweithredol newydd: Mae Platform Cyffredin eisoes yn cael ei ddatblygu er mwyn darparu un system TG rheoli achosion i'w ddefnyddio yn holl Lysoedd y Goron a'r llysoedd ynadon. Bydd yn darparu mynediad i ddeunydd a gwybodaeth achos i nifer o asiantaethau sy'n rhan o'r system gyfiawnder troseddol yn ogystal â'r amddiffyniad, dioddefwyr a thystion. Bydd nifer o brosesau papur a llys presennol yn cael eu symud ar-lein, gan arbed amser a chynyddu effeithiolrwydd i holl ddefnyddwyr y llysoedd.
- iii. Galluogi euogfarnu a dirwyon penodol ar-lein: Ar gyfer rhai troseddau lefel isel, angharcharadwy, arferol, pan nad oes dim dioddefwr y gellir ei adnabod, rydym yn cynnig cyflwyno system sy'n datrys achosion yn llwyr ar-lein. Byddai diffynyddion yn mewngofnodi ar system ar-lein i weld y dystiolaeth yn eu herbyn cyn pledio. Os byddant yn pledio'n euog, gallant optio i mewn i'r (a gallant optio allan ohoni ar unrhyw adeg) system ar-lein sy'n eu galluogi i weld y gosb, derbyn yr euogfarn a'r gosb, a thalu eu dirwy. Byddai achosion yn cael eu datrys ar unwaith ac yn gyfan gwbl ar-lein, heb yr angen am ynad. Buasem yn croesawu eich safbwyntiau ar y cynnig hwn - mae mwy o fanylion ar gael ym Mhennod 7.2

3 Pennod Tri: Sifil

3.1 Mae'r system gyfiawnder sifil yn delio ag ystod anferth o achosion - o rai gwerth ariannol isel ond sy'n anghydfodau chwerw rhwng cymdogion, i achosion masnachol cymhleth sy'n werth miliynau. Rydym eisoes yn delio â'r dadleuon hyn mewn gwahanol ffyrdd, ond gallwn fynd ymhellach o ran sicrhau ein bod yn defnyddio dull cyfiawn, cymesur a hygyrch er mwyn arwain at wneud penderfyniadau'n gyflymach.

- i. Cyflwyno proses ar-lein newydd ar gyfer datrys hawliadau: Yn unol â chynlluniau ar draws pob awdurdodaeth, byddwn yn symud mwy o achosion o'r llysoedd ffisegol. Gan adeiladu ar gynigion Yr Arglwydd Ustus Briggs yn ei Adolygiad o Strwythurau'r Llys Sifil, byddwn yn creu proses newydd i ddatrys nifer o anghydfodau yn gyfan gwbl ar-lein, gan ddefnyddio technoleg arloesol a swyddogion achos arbenigol er mwyn symud achosion syml drwy'r system a chadw amser barnwrol ar gyfer yr achosion mwyaf cymhleth. Byddwn yn creu Pwyllgor Rheolau newydd wedi'i lifinio er mwyn dylunio'r system newydd hon a chadw'r prosesau'n syml. Pan fo angen gwrandawiaid, gellir eu cynnal drwy gyfrwng cynadledda ffôn neu fideo, gan ganolbwyntio adnoddau'r llys ar yr achosion mwyaf cymhleth ac anodd. Mae hyn yn golygu y dylai achosion gyrraedd datrysiad yn gyflymach.
- ii. Annog partïon i ddatrys achosion eu hunain pan fo'n bosibl: Byddwn yn cynyddu'r cyfeirio tuag at gyfryngu a gwasanaethau datrys achosion amgen er mwyn helpu pobl i osgoi mynd i lys mewn perthynas â mân anghydfodau y gellid delio â hwy yn well yn breifat, heb yr angen am ymyrraeth y llys.
- iii. Ymestyn y gyfundrefn costau adenilladwy penodol: Mae costau adenilladwy penodol yn gostau cyfreithiol ellir eu hadennill gan y parti llwyddiannus oddi ar yr ochr sy'n colli, ar gyfradd ragnodedig. (Yn achos hawliadau sifil, mae'r rhain yn cael eu nodi yn y Rheolau Gweithdrefnau Sifil). Byddwn yn adeiladu ar fesurau a gyflwynwyd yn ystod y Senedd ddiwethaf ar gyfer hawliadau am anafiadau corfforol o werth isel, er mwyn cyfyngu ar lefel y costau cyfreithiol ellir eu hadennill. Mae'r mesurau hyn yn darparu tryloywder a sicrwydd i bob parti ac fe'i dyluniwyd i sicrhau bod swm y gwaith cyfreithiol a wneir yn gymesur i werth yr hawliad. Rydym yn awyddus i ymestyn y gyfundrefn costau adenilladwy penodol i gymaint o achosion sifil â phosibl. Bydd yr uwch farnwriaeth yn datblygu cynigion y byddwn wedyn yn ymgynghori arnynt.
- iv. Gorfodaeth sifil: Byddwn yn rhoi pwerau i'r Uchel Lys roi gorchmynion atodiad enillion er mwyn creu dull symlach, mwy cyson o orfodi, a sicrhau bod pobl yn gallu cael yr arian sy'n ddyledus iddynt. Byddwn hefyd yn rhoi ar waith ddarpariaethau cynllun didyniadau penodol (tabl penodol) Deddf Tribiwnlysoedd, Llysoedd a Gorfodaeth 2007 yn y Llys Sirol ac yn cyflwyno tablau penodol yn yr Uchel Lys, gan ddarparu tryloywder a sicrwydd ynglŷn â chyfradd y didyniadau o enillion dyledwyr ar gyfer talu'n ôl i'w credydwyr.
- v. Amnewid datganiadau statudol mewn achosion llysoedd sirol gyda datganiad tyst a ddilyswyd gan ddatganiad o'r gwirionedd: Byddwn yn amnewid hen weithdrefnau anghyson, sy'n anghyfleus i bobl eu defnyddio ac sy'n drwm o ran adnoddau i'w gweinyddu, gyda dull digidol mwy modern, ond gan gadw cosbau llym pan ganfyddir bod datganiad o'r gwirionedd yn ffug.

4 Pennod Pedwar: Teulu

- 4.1 Mae achosion teulu yn delio â rhai o'r materion mwyaf sensitif yn y system gyfiawnder, yn cynnwys anghydfodau rhwng rhieni ynglŷn â ble dylai plant fyw a threulio eu hamser, gwarchod plant sy'n agored i niwed rhag camdriniaeth ac esgeulustod, a delio gydag ysgariad a gwahanu. Ers yr Adolygiad o Gyfiawnder Teuluol yn 2011, bu diwygiadau mawr drwy greu'r Un Llys Teulu a newidiadau i Gymorth Cyfreithiol a chymhwysedd mewn achosion cyfraith breifat.

- 4.2 Fodd bynnag, mae mwy o waith i'w wneud er mwyn sicrhau bod y system gyfraith teulu wedi'i theilwra i anghenion unigol y nifer o bobl sy'n ei defnyddio, ac er mwyn sicrhau bod y bobl hynny yn teimlo bod eu safbwyntiau yn cael eu clywed a'u hystyried wrth benderfynu ar y canlyniadau gorau. Rydym yn gweithio ar ystyried pa newidiadau eraill sydd eu hangen a byddwn yn cyflwyno cynigion maes o law.

5 Pennod Pump: Tribiwnlysoedd

5.1 Yn wreiddiol, sefydlwyd tribiwnlysoedd er mwyn darparu gwasanaeth cymesur a hawdd ei ddefnyddio, yn bennaf ar gyfer dinasyddion sy'n apelio yn erbyn penderfyniadau'r wladwriaeth, ond gydag amser maent wedi dod yn gymhleth ac yn araf i ddelio â hwy, wedi eu llethu â gwaith papur a biwrocratiaeth ddiangen. Yn unol â'n hegwyddorion, sef cyfiawn, cymesur a hygyrch, rydym yn gweithio i greu system sy'n haws i'w defnyddio ac sy'n darparu gwell gwerth am arian.

- i. Lliflinio gweithdrefnau ac annog dull cytbwys: Rydym yn gweithio i symleiddio ein gweithdrefnau ac i roi gwasanaethau yn gyfan gwbl ar-lein, wedi eu dylunio'n ofalus er mwyn bod yn hawdd eu defnyddio a'u dilyn. Nid yw nifer o benderfyniadau cymharol syml y tribiwnlysoedd angen gwrandawiadau llawn ffisegol, felly pan fo'n briodol, bydd barnwyr yn gwneud penderfyniadau yn seiliedig ar sylwadau ysgrifenedig, bydd gwrandawiadau yn cael eu cynnal drwy gyfrwng cynadledda ffôn neu fideo a bydd swyddogion achos wedi'i hyfforddi'n arbennig yn helpu achosion i fynd rhagddynt drwy'r system. Bydd yr holl newidiadau hyn yn arwain at broses gyflymach a haws delio â hi i bob parti sy'n ymwneud â'r achos.
- ii. Digideiddio'r Tribiwnlys Nawdd Cymdeithasol a Chynnal Plant: Dyma fydd un o'r gwasanaethau cyntaf i gael ei symud yn llwyr ar-lein, gyda phroses ddigidol o'r dechrau i'r diwedd fydd yn gyflymach ac yn haws ei defnyddio i bobl sy'n ei defnyddio.
- iii. Symleiddio cyfansoddiad paneli: Ffactor arall wrth ddefnyddio ymagwedd gytbwys a theilwredig tuag at achosion tribiwnlysoedd yw sicrhau bod y paneli sy'n gwneud penderfyniadau mewn tribiwnlysoedd wedi'u dylunio i fod yn fwyaf addas i amgylchiadau'r achos. Ar hyn o bryd mae'r rhan fwyaf o dribiwnlysoedd yn adlewyrchu trefniadau hanesyddol allai fod yn hen ffasiwn, ac nad ydynt yn teilwra arbenigedd y panel yn ôl yr achos. Rydym yn cynnig adolygu'r trefniadau presennol ar gyfer pennu cyfansoddiad paneli er mwyn sicrhau bod arbenigedd priodol yn cael ei ddefnyddio yn yr achosion hynny sydd ei angen. Buasem yn croesawu eich safbwyntiau ar y ffordd orau o gyflawni hynny - mae mwy o fanylion ar gael ym Mhennod 7.3
- iv. Diwygio tribiwnlysoedd cyflogaeth: Mae'r Tribiwnlysoedd Cyflogaeth yn delio â nifer enfawr o hawliadau bob blwyddyn – c. 83,000 yn 2015/16¹. Maent yn gweithio ar sail yr un egwyddorion â nifer o dribiwnlysoedd eraill a'r llysoedd sifil, ond ar hyn o bryd mae ganddynt strwythur cwbl ar wahân, yn cynnwys tribiwnlysoedd apeliadau penodol. Rydym yn ystyried a ellid cymhwyso'r dulliau newydd sy'n cael eu mabwysiadu mewn meysydd eraill yn y system gyfiawnder i'r awdurdodaeth gyflogaeth.

5.2 Er y byddai unrhyw ddiwygio'r llysoedd yn gyfyngedig i Gymru a Lloegr yn unig, mae HMCTS ar hyn o bryd yn gyfrifol am reoli tribiwnlysoedd a gadwyd yn yr Alban hefyd. Bydd y cyfrifoldeb o reoli tribiwnlysoedd a gadwyd yn Yr Alban yn cael ei drosglwyddo

¹ Tabl 1.2, Prif Dablau, Ystadegau Chwarterol Tribiwnlysoedd y Weinyddiaeth Gyfiawnder a Chydnabod Rhyw, Ionawr - Mawrth 2016: <https://www.gov.uk/government/statistics/tribunals-and-gender-recognition-certificate-statistics-quarterly-january-to-march-2016>

Gweddnewid ein system gyfiawnder - crynodeb o ddiwygiadau ac ymgynghoriad

i Wasanaeth Llysoedd a Thribiwnlysoedd yr Alban fel rhan o weithredu Deddf Yr Alban 2016 a bydd Senedd yr Alban yn gyfrifol am benderfynu sut fydd y tribiwnlysoedd hyn yn cael eu rheoli yn y dyfodol.

6 Pennod Chwech: Casgliad a Chamau Nesaf

- 6.1 Mae'r diwygiadau hyn yn gweithio gyda'i gilydd er mwyn gwireddu gweledigaeth Yr Arglwydd Ganghellor, Yr Arglwydd Brif Ustus ac Uwch Lywydd y Tribiwnlysoedd. Wrth wneud y newidiadau hyn, byddwn yn sefydlu system gyfiawn, gymesur a hygyrch sy'n addas ar gyfer yr oes fodern ac sy'n darparu gwell profiad i bawb sydd ei hangen.
- 6.2 Bydd y Llywodraeth yn cyflwyno deddfwriaeth maes o law er mwyn galluogi'r diwygiadau hyn pan fo angen hynny.
- 6.3 Ar y cam hwn, gwahoddir sylwadau ar dair elfen benodol:
 - i. Cyfleusterau digidol gyda chymorth;
 - ii. Euogfarnu a dirwyon penodol statudol ar-lein; a
 - iii. Chyfansoddiad paneli yn y tribiwnlysoedd.

Gweddnewid ein system gyfiawnder: Ymgynghoriad

Ynglŷn â'r ymgynghoriad hwn

| | |
|---|---|
| Amser: | O 15/09/16 i 27/10/2016 |
| Ymholiadau (yn cynnwys ceisiadau am y papur mewn fformat arall) i: | Courts Reform Policy Ministry of Justice 102 Petty France London SW1H 9AJ Ffôn: 020 3334 3555 Ffacs: 020 3334 2233 E-bost: CourtsReformPolicy@justice.gsi.gov.uk |
| Sut i ymateb: | Ymatebwch ar-lein yn: https://consult.justice.gov.uk erbyn 11.59pm ar ddydd Iau 27 Hydref, neu anfonwch eich ymatebion i (hefyd i gyrraedd erbyn dydd Iau 27 Hydref): Courts Reform Policy Post Point 3.41 Ministry of Justice 102 Petty France London SW1H 9AJ Ffôn: 020 3334 3555 E-bost: CourtsReformPolicy@justice.gsi.gov.uk |
| Papur ymateb: | Bydd ymateb i'r ymarferiad ymgynghori hwn yn cael ei gyhoeddi maes o law yn: https://consult.justice.gov.uk/ |

Rydym hefyd yn ymgynghori ar wahân ar amryw o faterion mewn perthynas â'r ffordd y bydd barnwyr yn gweithio mewn system ddiwygiedig, a'r ddarpariaeth fydd ei hangen arnynt yn y dyfodol er mwyn eu galluogi i wneud hynny.

Nid yw'r crynodeb hwn o ddiwygiadau yn ystyried y goblygiadau i ffioedd llysoedd a thribiwnlysoedd na chymorth cyfreithiol. Efallai bydd y diwygio sylfaenol hwn i'r ffordd y mae'r system gyfiawnder yn gweithio yn gofyn am newidiadau canlyniadol yn y dyfodol, y byddwn yn ymgynghori arnynt ar wahân maes o law pan fo'n briodol.

7 Pennod Saith: Ymgynghoriad

7.1 Digidol â chymorth

7.1.1 **Mae gwella technoleg a rhoi mwy o wasanaethau a phrosesau ar-lein yn allweddol i'n diwygiadau; i'r rhan fwyaf o bobl, bydd hyn yn golygu y bydd gwasanaethau llys a thriwlysoedd yn fwy hygyrch ac yn haws delio â hwy, a bydd yn newid y ffordd y bydd pobl yn rhyngweithio â'r system gyfiawnder yn sylfaenol.**

7.1.2 Rydym yn cydnabod na fydd pawb yn gallu ymgysylltu â'r prosesau newydd hyn, ac mae angen i ni gymryd camau i ddarparu cymorth i'r bobl hynny sydd ei angen er mwyn rhyngweithio â'r system newydd.

7.1.3 **Mae yna ystod o allu a hyder mewn perthynas â defnyddio technoleg ar draws y DU. Amcangyfrifir o holl boblogaeth y DU sy'n defnyddio gwasanaethau digidol y llywodraeth:**

- mae 30% yn "hunanddefnyddwyr digidol" - dyma'r bobl sydd â'r sgiliau, y mynediad a'r cymhelliant i ddefnyddio gwasanaethau digidol heb gymorth.
- gall 52% fod yn "ddigidol gyda chymorth" - dyma'r bobl sy'n gallu ac all ddewis ymgysylltu'n ddigidol, ond efallai bod angen help arnynt i wneud hynny. Ymhen amser, dylent gael yr hyder i fod yn rhan o'r grŵp "hunanwasanaethu".
- mae 18% wedi eu "hallgau'n ddigidol" - ni all y bobl yma ymgysylltu'n ddigidol o gwbl, neu maent yn dewis peidio, o ganlyniad i anhawster o ran cael mynediad i gyfleusterau TG, diffyg sgiliau digidol elfennol neu hyder, neu gymhelliant isel. Bydd y bobl yma'n parhau i fod angen llawer o gymorth, ond mae maint y grŵp yn lleihau gydag amser wrth i wasanaethau digidol ddod yn fwy cyffredin.

7.1.4 **Mae'n rhaid i bawb allu defnyddio ein gwasanaethau, i ba un bynnag o'r grwpiau hyn maent yn perthyn. Bydd nifer y bobl yn y trydydd grŵp yn amrywio ar draws y gwahanol awdurdodaethau ac efallai y byddant yn cael eu cynrychioli'n anghymesur mewn rhai rhannau o'r system - wrth ddylunio gwahanol wasanaethau bydd angen i ni deilwra'r datrysiadau yn seiliedig ar anghenion y bobl sy'n defnyddio'r gwasanaeth hwnnw. Nid yw dull unffurf i bawb yn briodol.**

7.1.5 Er mwyn sicrhau y gall pawb ddefnyddio ein gwasanaethau, rydym yn disgwyl cynnwys y canlynol fel rhan o'n dull:

- Cymorth wyneb yn wyneb - er enghraifft, helpu cwblhau ffurflen ar-lein. Efallai bydd y math hwn o wasanaeth yn cael ei ddarparu gan sefydliadau trydydd parti mewn rhai achosion.
- Gwasanaeth cymorth dros y ffôn yn cynnig cyngor tebyg, y buasem yn disgwyl iddo gael ei staffio gan System Llysoedd a Thriwlysoedd Ei Mawrhydi (HMCTS).

- Gwe-sgwrs er mwyn arwain pobl drwy'r prosesau ar-lein.
- Mynediad i sianelau papur i'r rhai sydd eu hangen.

7.1.6 Rydym yn profi rhai elfennau o hyn wrth ddatblygu dau wasanaeth newydd - y gallu i bledio ar-lein ar gyfer troseddau traffig lefel isel, a gwneud cais ar-lein am gymorth ariannol tuag at ffioedd llys, ar gyfer rhai ar incwm isel.

7.1.7 Mae nifer o fentrau diweddar y Llywodraeth wedi darparu cymorth digidol i grwpiau bach o bobl, ac rydym yn dysgu'r gwersi o'r rhain er mwyn hysbysu ein dull ni. O ystyried faint o wasanaethau yr ydym yn eu moderneiddio, bydd nifer y bobl yr effeithir arnynt gan y newidiadau ar draws y llysoedd a'r tribiwnlysoedd ar raddfa llawer mwy.

7.1.8 Byddwn yn parhau i ddatblygu ein hymagwedd tuag at gymorth digidol wrth i ni ddatblygu ein gwasanaethau, ac yn peilota a phrofi datrysiadau arfaethedig ac yn ystyried ymchwil defnyddwyr er mwyn teilwra ein darpariaeth. Bydd hon yn broses barhaus. Bydd tîm penodol yn HMCTS yn gweithio er mwyn sicrhau ein bod yn darparu gwasanaethau digidol hawdd i'w defnyddio a'u deall i bawb, yn cynnwys y rhai sydd wedi'u hallgau'n ddigidol sydd efallai ag anawsterau eraill megis nam ar y golwg neu lythrennedd isel.

Cwestiwn 1: A ydych yn cytuno mai'r sianelau a amlinellwyd (ffôn, gwe-sgwrs, wyneb yn wyneb a phapur) yw'r rhai priodol er mwyn galluogi pobl i ryngweithio â HMCTS mewn ffordd ystyrlon ac effeithiol?

Nodwch eich rhesymau os gwelwch yn dda.

Cwestiwn 2: A ydych yn credu bod unrhyw sianel yn benodol addas i fathau penodol o wasanaethau HMCTS?

Nodwch eich rhesymau os gwelwch yn dda.

7.2 Euogfarnu a dirwyon penodol statudol ar-lein

7.2.1 **Mae llawer o'r achosion lefel isel y mae'r llysoedd ynadon yn delio â hwy yn gymharol syml a chyffredin, a dylid delio â hwy mewn ffordd fwy cymesur. Mae tua 890,000 o achosion y flwyddyn yn rhai diannod, angharcharadwy yn unig. Ers Ebrill 2015, rydym wedi bod yn gweithredu ffordd newydd o ddelio â rhai o'r achosion hyn, gan gychwyn yn Llys Ynadon Lavender Hill. Mewn achosion priodol, mae'r Weithdrefn Un Ynad yn galluogi i un ynad ystyried ple diffynnydd a'r dystiolaeth, yn cynnwys unrhyw amgylchiadau lliniarol, "ar y papurau", ar ei ben/phen ei hun y tu allan i ystafell llys ffisegol. Gall yr ynad gollfarnu'r diffynnydd a phennu cosb heb yr angen am wrandawriad llys. Nid yw'r diffynnydd na'r erlyniad yn gorfod mynd i'r drafferth o fynychu llys ar gyfer yr achosion hyn (yn achos rhai troseddau gall y diffynnydd hyd yn oed bledio ar-lein) a delir â'r achosion yn gyflym ac effeithlon, gan ganiatáu i'r ynadon ganolbwyntio eu hamser gwerthfawr ar achosion mwy cymhleth ac achosion a ymrysonir. Erbyn diwedd 2016 byddwn wedi cwblhau cyflwyno'r weithdrefn hon ar draws Cymru a Lloegr.**

7.2.2 **Mae gennym gynlluniau i ddigideiddio'r broses hon. Bydd erlynyddion yn gallu cyflwyno manylion y cyhuddiad drwy borth ar-lein. Bydd diffynnyddion yn gweld y cyhuddiad a'r dystiolaeth yn eu herbyn, pledio a chyflwyno unrhyw amgylchiadau lliniarol neu wybodaeth am fodd (ar ôl i ynad ystyried yr achos) a chael gwybod am benderfyniad yr ynad - a'r cyfan ar-lein.**

7.2.3 Rydym eisiau symleiddio hyd yn oed mwy ar y broses ar gyfer rhai o'r achosion mwyaf cyffredin a lleiaf difrifol. Yn y dyfodol, rydym yn cynnig y bydd rhai diffynnyddion mewn achosion priodol yn gallu datrys eu hachosion yn llwyr ar-lein. Bydd diffynnyddion yn gallu mewngofnodi ar system ar-lein a gweld y dystiolaeth yn eu herbyn cyn pledio. O dan y cynnig hwn, bydd diffynnyddion fydd yn pledio'n euog yn yr achosion hyn yn cael cynnig yr opsiwn o dderbyn cosb wedi ei phennu ymlaen llaw (ac unrhyw iawndal a chostau priodol eraill), cael eu heuogfarnu a thalu'r gosb ddilydol yn syth, heb fod angen i ynad gyfrannu. Mae hyn yn galluogi i ddiffynnyddion gloi eu hachos yn gyflymach a gyda mwy o bendantwydd, ac mae'n golygu y gall ynadon dreulio eu hamser, a gall y llysoedd ganolbwyntio eu hadnoddau, ar yr hyn sydd eu hangen fwyaf. Rydym yn disgwyl y byddwn yn rhoi'r broses hon ar waith o 2018.

7.2.4 Rydym yn cynnig bod nifer o gamau diogelu yn cael eu hymgorffori yn y broses er mwy sicrhau ei bod ond yn cael ei defnyddio o dan amgylchiadau priodol:

- i. Dim ond troseddau diannod angharcharadwy fyddai'n gymwys i fod yn rhan o'r broses hon; pan nad oes dioddefwr y gellir ei adnabod yn gysylltiedig â'r drosedd, pan fo'r achos yn gymharol syml ac y gall cosb benodol fod yn briodol.
- ii. **Byddai'n rhaid i'r diffynnydd optio i mewn ohono'i hun drwy bledio'n euog ar-lein a chytuno â'r broses hon. Os bydd y diffynnydd yn dymuno pledio'n euog ond nad yw'n dymuno derbyn y ddirwy benodol neu'r gollfarn ar-lein (er enghraifft,**

oherwydd ei fod eisiau egluro amgylchiadau lliniarol neu ddarparu gwybodaeth ynglŷn â'u modd) gallant yn hytrach ddewis cael ynad i ystyried y wybodaeth honno drwy'r Weithdrefn Un Ynad neu gael llys i wrando eu hachos. Byddai pledio'n ddieuog yn golygu y bydd yr achos yn cael ei restru ar gyfer treial yn awtomatig.

- iii. **Byddai gan erlynyddion ddisgresiwn ynglŷn ag a yw achos penodol yn addas ar gyfer y broses hon o ystyried y dystiolaeth neu ffactorau gwaethybol megis aildroseddu.**
- iv. **Bydd angen o hyd i bob erlynydd fodloni'r prawf statudol ar gyfer erlyn - sef a oes yna ddigon o dystiolaeth i erlyn ac a yw er lles y cyhoedd. Bydd erlynyddion yn parhau i fod yn atebol am eu penderfyniadau.**
- v. Byddai diffynnyddion yn derbyn yr holl dystiolaeth berthnasol yn eu herbyn a'r canlyniadau posibl, megis y gyfundrefn ddatgelu ar gyfer yr euogfarn. Cyn dewis y llwybr hwn, byddant yn derbyn manylion am y gosb benodol arfaethedig (ac unrhyw elfennau ychwanegol megis iawndal a chostau) er mwyn galluogi diffynnyddion i wneud penderfyniad gwybodus.
- vi. **Byddai diffynnyddion yn gallu ceisio help er mwyn ymgysylltu â'r broses drwy sianelau digidol â chymorth os byddant yn dymuno hynny.**
- vii. **Byddai gan y llys y pŵer i ddiddymu euogfarn ac i ail dreialu'r achos, petai'r diffynnydd heb ddeall canlyniadau ei benderfyniad i dderbyn yr euogfarn a'r gosb gyfan.**
- viii. Byddai gostyngiadau presennol am bledio'n euog yn gynnar yn parhau i fod yn gymwys p'un a phleidiwyd hynny ar-lein neu mewn ffyrdd eraill (e.e. drwy'r post).
- ix. Byddai diffynnyddion na fyddai'n gallu talu'r gosb gyfan yn syth yn gallu cytuno ar gynllun ad-dalu.
- x. **Os, yn y dyfodol, bydd troseddau gyrru sydd â phwyntiau cosb yn gysylltiedig â hwy yn cael eu cynnwys yng nghwmpas y broses hon, bydd yna system ar gyfer delio â phwyntiau a'r posibilrwydd o wahardd drwy "gasglu pwyntiau", er mwyn tynnu allan achosion nad ydynt yn briodol ar gyfer y system ar-lein.**

7.2.5 Troseddau o fewn y cwmpas

- 7.2.6 **Dim ond troseddau penodol penodedig fydd yn gymwys ar gyfer y broses hon. Er mwyn i achos fod yn briodol ar gyfer y broses hon, mae'n rhaid iddo fod yn gymharol syml i'w brofi, gyda dim seiliau cymhleth a dim posibilrwydd arall o ddisgresiwn sylweddol gan ynadon mewn sefyllfa draddodiadol. Hefyd, ni ddylai fod unrhyw debygolrwydd i orchmynion ategol fod yn berthnasol (er enghraifft, gwahardd rhag gyrru neu orchmyn rhianta). Rydym yn cynnig profi'r system gyda nifer fechan o droseddau diannod angharcharadwy yn**

ystod cam cychwynol cyflwyno'r cynllun euogfarnu a chosbau penodol ar-lein, sef:

- Osgoi talu am docyn rheilffordd
- Osgoi talu am docyn tram
- **Meddu ar wialen a lein heb drwydded**

7.2.7 Os bydd y cam cychwynol hwn yn llwyddiannus, rydym yn cynllunio i gyflwyno troseddau eraill, yn arbennig troseddau traffig ffyrdd penodol, i'r system yn y dyfodol.

Cwestiwn 3: A ydych yn cytuno ag egwyddor euogfarn ar-lein a phroses cosb benodol statudol ar-lein ar gyfer y rhai sy'n pledio'n euog ac sy'n fodlon mynd rhagddynt gyda'r broses?

Nodwch eich rhesymau os gwelwch yn dda.

Cwestiwn 4: A ydych yn meddwl bod yna unrhyw ystyriaethau ychwanegol y dylem eu ffactora i'r model hwn?

Rhestrwch ystyriaethau ychwanegol os gwelwch yn dda.

Cwestiwn 5: A ydych yn credu bod y camau diogelu arfaethedig yn ddigonol (paragraffau i-x uchod)?

Nodwch eich rhesymau os gwelwch yn dda.

Cwestiwn 6: A ydych yn cytuno bod y troseddau a restrir uchod yn briodol ar gyfer y weithdrefn hon, ac a ydych yn cytuno â'n cynnig i ymestyn hynny i droseddau eraill yn y dyfodol, yn cynnwys troseddau gyrru?

Nodwch eich rhesymau os gwelwch yn dda.

7.3 Cyfansoddiad paneli mewn tribiwnlysoedd.

- 7.3.1 Fel rhan o'n hymrwymiad i symleiddio tribiwnlysoedd, rydym yn adolygu'r trefniadau presennol mewn perthynas â chyfansoddiad tribiwnlysoedd yn y system unedig.**
- 7.3.2 Mae aelodau nad ydynt yn gysylltiedig â'r gyfraith yn rhan hanfodol o'n barnwriaeth, oherwydd bod ganddynt sgiliau unigryw na fyddai ar gael fel arall i'r tribiwnlys. Maent hefyd yn ein helpu i sicrhau bod ein system farnwrol yn wirioneddol gynrychioliadol, nid o gymdeithas yn unig ond o'r bobl sy'n ymddangos gerbron ein tribiwnlysoedd. Pan fo angen hynny, mae cael rhywun all ddarparu arbenigedd a gwybodaeth am, er enghraifft, effaith problem feddygol mewn apêl i'r Tribiwnlys Haen Gyntaf (Nawdd Cymdeithasol a Chynnal Plant), neu werth rhent priodol eiddo mewn apêl i'r Tribiwnlys Haen Gyntaf (Siambr Eiddo), yn hanfodol. Bydd ein system yn parhau i fod angen, ac i ddarparu ar gyfer, mewnbyn aelodau nad ydynt yn gysylltiedig â'r gyfraith sydd ag ystod eang o sgiliau er mwyn darparu'r arbenigedd angenrheidiol hwnnw pan fo angen.**
- 7.3.3 Wrth i ni liflinio'r system tribiwnlysoedd, mae angen i ni fod yn fwy teilwredig a hyblyg yn y ffordd y mae aelodau nad ydynt yn gysylltiedig â'r gyfraith yn cael eu defnyddio. Bydd cyfansoddiad paneli yn parhau i fod yn fater i Uwch Lywydd y Tribiwnlysoedd (SPT), ond rydym eisiau symud oddi wrth ddull cyffredinol o ddefnyddio aelodau nad ydynt yn gysylltiedig â'r gyfraith p'un a yw eu harbenigedd neu wybodaeth yn berthnasol neu'n angenrheidiol neu beidio. Yn hytrach, dylent ond fod yn rhan o'r panel pan fo'u presenoldeb yn berthnasol i'r achos. Hefyd, gellid defnyddio eu harbenigedd a'u gwybodaeth mewn ffyrdd arloesol, gyda mwy o ffocws ar ymgysylltu ar-lein a thrafodaeth barhaus y tu allan i'r gwrandawiadau traddodiadol rhwng y partïon a'r tribiwnlys.**
- 7.3.4 Mae telerau Gorchymyn Tribiwnlys Haen Gyntaf a'r Uwch Tribiwnlys (Cyfansoddiad Tribiwnlys) 2008 yn caniatáu i'r SPT bennu cyfansoddiad paneli tribiwnlysoedd yn y system unedig drwy gyfrwng Datganiadau Ymarfer. Mae hefyd yn ei gwneud yn ofynnol iddo ystyried y trefniadau oedd yn bodoli cyn i'r tribiwnlys gael ei drosglwyddo i'r system unedig (oedd yn rhan o raglen gyflwyno a gychwynnodd yn 2008). Yn ymarferol, mae'r gofyniad hwn yn golygu bod paneli tribiwnlysoedd yn seiliedig ar gynseiliau hanesyddol yn hytrach na'r arbenigedd neu'r wybodaeth fwyaf priodol ar gyfer achosion unigol yn 2016. Er enghraifft, yn y Tribiwnlys Haen Gyntaf (Nawdd Cymdeithasol a Chynnal Plant), mae'n rhaid i'r achos gael ei glywed gan farnwr, aelod meddygol ac aelod gyda phrofiad o ddarparu neu dderbyn gofal ar gyfer anabledd, beth bynnag fo amgylchiadau'r achos o dan sylw.**
- 7.3.5 Mae rhai newidiadau eisoes wedi cael eu cyflwyno drwy gyfrwng Datganiadau Ymarfer diwygiedig, ac ni ddangoswyd bod hynny wedi arwain at unrhyw effaith negyddol ar benderfyniadau. Er enghraifft, fel**

arfer mae achosion yn y Tribiwnlys Haen Gyntaf (Mewnfudo a Lloches) erbyn hyn yn cael eu clywed gan farnwr unigol oni bai fod Llywydd y Siambr neu'r Barnwr Preswyl yn penderfynu bod angen mwy o aelodau ar y panel er lles cyfiawnder. Mae nifer yr apeliadau a ganiatawyd mewn achosion allfudo wedi aros yr un fath, sef rhwng 32% a 37% o 2012/13 i ddau chwarter cyntaf 2015/16. Hefyd, bu gostyngiad yn nifer yr aelodau panel yn y Tribiwnlys Haen Gyntaf (Anghenion Addysgol Arbennig ac Anabledd), ac mae nifer y penderfyniadau a apeliwyd o'r haen gyntaf wedi aros yn sefydlog. Ar wahân i hynny, yn y Tribiwnlys Cyflogaeth, mae'r Llywodraeth wedi gostwng nifer yr aelodau panel yn y rhan fwyaf o hawliadau am ddiswyddo annheg, ond ni effeithiwyd yn amlwg ar ganlyniadau - mae cyfran yr achosion llwyddiannus wedi aros ar rhwng 8% a 11% rhwng 2007/8 a 2014/15.

7.3.6 Felly rydym yn cynnig diwygio Gorchymyn Tribiwnlys Haen Gyntaf a'r Uwch Dribiwnlys (Cyfansoddiad Tribiwnlys) 2008 er mwyn rhoi mwy o ryddid i'r SPT fabwysiadu dull mwy cymesur a hyblyg o bennu cyfansoddiad paneli, drwy:

- Ddarparu bod panel tribiwnlys yn y Tribiwnlys Haen Gyntaf yn cynnwys un aelod oni phenderfynir fel arall gan yr SPT; a
- Chael gwared â'r gofyniad presennol i ystyried y trefniadau oedd yn bodoli cyn i'r tribiwnlys gael ei drosglwyddo i'r system unedig.

7.3.7 **Cyfrifoldeb yr SPT fydd pennu cyfansoddiad paneli o hyd, a bydd yn dal yn ofynnol iddo gynnal mynediad i gyfiawnder, er mwyn sicrhau bod achosion yn deg a chymesur, ac er mwyn darparu'r arbenigedd angenrheidiol. Felly gallwn fod yn hyderus na fydd pobl sy'n dibynnu ar dribiwnlysoedd i roi penderfyniad teg iddynt yn dioddef, ond hytrach bydd yna welliant o ran cyflymder ac effeithlonrwydd yn ogystal â mwy o sgôp i arloesi. Bydd yn galluogi'r SPT i ystyried y ffordd fwyaf priodol o ddarparu arbenigedd a gwybodaeth arbenigol yn y system tribiwnlysoedd a weddnewidir, ac i wneud penderfyniadau yn seiliedig ar yr hyn sy'n ddefnyddiol yn hytrach nag ar gynseiliau hanesyddol nad ydynt efallai yn berthnasol erbyn hyn.**

7.3.8 Pan fo angen arbenigedd a gwybodaeth arbenigol, bydd yn dal i gael ei ddarparu, ond bydd yr SPT yn gallu ystyried ffordd fwy hyblyg o ddyrannu'r adnoddau arbenigol pwysig a ddarperir gan aelodau nad ydynt yn gysylltiedig â'r gyfraith. Er enghraifft, gellid eu defnyddio fel cronfa o arbenigwyr y gellid galw arnynt ar draws amryw Siambrau ac awdurdodaethau a fyddai'n elwa o'u harbenigedd, gan ateb ymholiadau penodol gan farnwyr neu helpu pobl i fwrw ymlaen â'r broses drwy rannu eu sgiliau a'u gwybodaeth.

7.3.9 **Ar hyn o bryd mae defnyddio aelodau panel lluosog yn y tribiwnlysoedd unedig yn costio tua £21m y flwyddyn i'r trethdalwr mewn ffioedd yn unig, gyda ffioedd dyddiol pob aelod yn amrywio o £200 - £500, yn ogystal â chostau ychwanegol ar gyfer teithio a chynhaliadau, hyfforddiant, gwerthuso a gweinyddu cyffredinol. Drwy ddefnyddio NLM mewn ffordd fwy teilwredig a hyblyg, gallwn sicrhau y bydd mwy o**

bobl yn y tribiwnlysoedd yn elwa o'u harbenigedd a'u gwybodaeth arbenigol, tra'n cynnig gwell gwerth am arian i'r trethdalwr.

Cwestiwn 7: A ydych yn cytuno y dylai'r SPT allu pennu cyfansoddiad panel yn seiliedig ar anghenion newidiol y bobl sy'n defnyddio system y tribiwnlysoedd?

Nodwch eich rhesymau os gwelwch yn dda.

Cwestiwn 8: Er mwyn cynorthwyo'r SPT i sicrhau bod yr arbenigedd priodol yn cael ei ddarparu yn dilyn y diwygiad arfaethedig, pa ffactorau ydych chi'n meddwl ddylid eu hystyried er mwyn penderfynu a oes angen arbenigwyr lluosog i wrando ar achosion unigol?

Nodwch eich rhesymau a nodwch ar gyfer pa awdurdodaethau a/neu fathau o achosion y mae'r ffactorau hyn yn berthnasol iddynt.

7.4 Asesiadau o effaith a'r effaith ar gydraddoldeb

7.5 Yn atodol i'r ddogfen hon rydym wedi cyhoeddi asesiadau o effaith ar effaith ar gydraddoldeb ar gyfer pob un o'r mesurau yr ydym yn gwahodd safbwyntiau arnynt.

Cwestiwn 9: A ydych yn cytuno ein bod wedi arenwi'r ystod o effeithiau yn gywir, fel y'u nodir yn yr Asesiadau o Effaith ategol, fydd yn deillio o'r cynigion hyn?

- Digidol â Chymorth
- Euogfarnu a dirwyon penodol statudol ar-lein
- Cyfansoddiad paneli yn y tribiwnlysoedd.

Nodwch eich rhesymau os gwelwch yn dda.

Cwestiwn 10: Beth ydych chi'n ystyried fydd yr effeithiau ar gydraddoldeb fydd yn deillio o'r holl opsiynau diwygio arfaethedig yn achos unigolion a nodweddon gwarchoddedig? Nodwch eich rhesymau os gwelwch yn dda.

Cwestiwn 11: A ydych yn cytuno ein bod wedi arenwi'r ystod o effeithiau ar gydraddoldeb yn gywir, fel y'u nodir yn yr Asesiadau o'r Effaith ar Gydraddoldeb ategol, fydd yn deillio o'r cynigion hyn?

- Digidol â Chymorth
- Dirwy Benodol Statudol
- Cyfansoddiad paneli yn y tribiwnlysoedd.

Nodwch eich rhesymau os gwelwch yn dda.

8 Crynodeb o gwestiynau

Buasem yn croesawu ymatebion i'r cwestiynau canlynol a nodwyd yn y papur ymgynghori hwn.

Digidol â chymorth

Cwestiwn 1: A ydych yn cytuno mai'r sianelau a amlinellwyd (ffôn, gwe-sgwrs, wyneb yn wyneb a phapur) yw'r rhai priodol er mwyn galluogi pobl i ryngweithio â HMCTS mewn ffordd ystyrlon ac effeithiol?

Nodwch eich rhesymau os gwelwch yn dda.

Cwestiwn 2: A ydych yn credu bod unrhyw sianel yn benodol addas i fathau penodol o wasanaethau HMCTS?

Nodwch eich rhesymau os gwelwch yn dda.

Euogfarnu a dirwyon penodol statudol ar-lein

Cwestiwn 3: A ydych yn cytuno ag egwyddor proses cosb benodol statudol ar-lein ar gyfer y rhai sy'n pledio'n euog ac sy'n fodlon mynd rhagddynt gyda'r broses?

Nodwch eich rhesymau os gwelwch yn dda.

Cwestiwn 4: A ydych yn meddwl bod yna unrhyw ystyriaethau ychwanegol y dylem eu ffactora i'r model hwn?

Rhestrwch ystyriaethau ychwanegol os gwelwch yn dda.

Cwestiwn 5: A ydych yn credu bod y camau diogelu arfaethedig yn ddigonol (paragraffau i-x uchod)?

Nodwch eich rhesymau os gwelwch yn dda.

Cwestiwn 6: A ydych yn cytuno bod y troseddau a restrir uchod yn briodol ar gyfer y weithdrefn hon, ac a ydych yn cytuno â'n cynnig i ymestyn hynny i droseddau eraill yn y dyfodol, yn cynnwys troseddau gyrru?

Nodwch eich rhesymau os gwelwch yn dda.

Cyfansoddiad paneli mewn tribiwnlysoedd.

Cwestiwn 7: A ydych yn cytuno y dylai'r SPT allu pennu cyfansoddiad panel yn seiliedig ar anghenion newidiol y bobl sy'n defnyddio system y tribiwnlysoedd?

Nodwch eich rhesymau os gwelwch yn dda.

Cwestiwn 8: Er mwyn cynorthwyo'r SPT i sicrhau bod yr arbenigedd priodol yn cael ei ddarparu yn dilyn y diwygiad arfaethedig, pa ffactorau ydych chi'n meddwl ddylid eu hystyried er mwyn penderfynu a oes angen arbenigwyr lluosog i wrando ar achosion unigol?

Nodwch eich rhesymau a nodwch ar gyfer pa awdurdodaethau a/neu fathau o achosion y mae'r ffactorau hyn yn berthnasol iddynt.

Effeithiau ac effeithiau ar gydraddoldeb

Cwestiwn 9: A ydych yn cytuno ein bod wedi arenwi'r ystod o effeithiau yn gywir, fel y'u nodir yn yr Asesiadau o Effaith ategol, fydd yn deillio o'r cynigion hyn?

- Digidol â Chymorth
- Euogfarnu a Dirwyon Penodol Statudol Ar-lein
- Chyfansoddiad paneli yn y tribiwnlysoedd.

Nodwch eich rhesymau os gwelwch yn dda.

Cwestiwn 10: Beth ydych chi'n ystyried fydd yr effeithiau ar gydraddoldeb fydd yn deillio o'r holl opsiynau diwygio arfaethedig yn achos unigolion â nodweddon gwarchodedig?

Nodwch eich rhesymau os gwelwch yn dda.

Cwestiwn 11: A ydych yn cytuno ein bod wedi arenwi'r ystod o effeithiau ar gydraddoldeb yn gywir, fel y'u nodir yn yr Asesiadau o'r Effaith ar Gydraddoldeb ategol, fydd yn deillio o'r cynigion hyn?

- Digidol â Chymorth
- Dirwy Benodol Statudol
- Chyfansoddiad paneli yn y tribiwnlysoedd.

Nodwch eich rhesymau os gwelwch yn dda.

Diolch am gymryd rhan yn yr ymarferiad ymgynghori hwn.

Amdanoch chi

Defnyddiwch yr adran hon i roi gwybodaeth i ni amdanoch chi

| | |
|---|---|
| Enw llawn | |
| Teitl swydd neu ym mha rinwedd yr ydych yn ymateb i'r ymarferiad ymgynghorol hwn (e.e. aelod o'r cyhoedd etc.) | |
| Dyddiad | |
| Enw cwmni/sefydliad (os yn berthnasol) | |
| Cyfeiriad | |
| | |
| Cod Post | |
| Os dymunwch i ni gydnabod derbyn eich ymateb, ticiwch y blwch hwn os gwelwch yn dda | <input type="checkbox"/> (ticiwch y blwch) |
| Y cyfeiriad y dylid anfon y gydnabyddiaeth iddo, os yw'n wahanol i'r uchod | |
| | |
| | |

Os ydych yn cynrychioli grŵp, dywedwch wrthym beth yw enw'r grŵp a rhowch grynodedb am y bobl neu'r sefydliadau yr ydych yn eu cynrychioli.

Manylion cysylltu/Sut i ymateb

Ymatebwch ar-lein yn: <https://consult.justice.gov.uk> erbyn 11.59pm ar ddydd Iau 27 Hydref, neu anfonwch eich ymatebion i (hefyd i gyrraedd erbyn dydd Iau 27 Hydref): :

Courts Reform Policy
Post Point 3.41
Ministry of Justice
102 Petty France
London SW1H 9AJ

Ffôn: 020 3334 3555

E-bost: CourtsReformPolicy@justice.gsi.gov.uk

Cwynion neu sylwadau

Os oes gennych unrhyw gwynion neu sylwadau ynghylch y broses ymgynghori dylech gysylltu â'r Weinyddiaeth Gyfiawnder yn y cyfeiriad uchod.

Copiâu ychwanegol

Gellir cael mwy o gopiâu o'r ymgynghoriad hwn o'r cyfeiriad hwn ac mae hefyd ar gael ar-lein yn [<https://consult.justice.gov.uk/>](https://consult.justice.gov.uk/).

Gellir hefyd gofyn am fersiynau o'r cyhoeddiad hwn mewn fformatau eraill o'r cyfeiriad hwn.

Cyhoeddi ymateb

Bydd papur yn crynhoi'r ymatebion i'r ymgynghori hwn yn cael ei gyhoeddi maes o law. Bydd y papur ymateb ar gael ar-lein yn <https://consult.justice.gov.uk/>.

Grwpiau cynrychiadol

Gofynnir i grwpiau cynrychiadol roi crynodeb o'r bobl a'r sefydliadau maent yn eu cynrychioli pan fyddant yn ymateb.

Cyfrinachedd

Gellir cyhoeddi neu ddatgelu'r wybodaeth a ddarperir yn yr ymgynghoriad hwn, yn cynnwys gwybodaeth bersonol yn unol â'r cyfundrefnau mynediad i wybodaeth (sef, yn sylfaenol, Deddf Rhyddid Gwybodaeth 2000 (DRhG), Deddf Diogelu Data 1998 (DDD) a Rheoliadau Gwybodaeth Amgylcheddol 2004).

Os ydych eisiau i'r wybodaeth a ddarperir gennych gael ei thrin yn gyfrinachol, byddwch yn ymwybodol, o dan y DRhG, bod yna God Ymarfer statudol y mae'n rhaid i awdurdodau cyhoeddus gydymffurfio ag ef, ac mae hwnnw'n delio ag ymrwymadau o ran cyfrinachedd, ymysg materion eraill. O ystyried hyn, byddai'n help i ni petaech yn gallu egluro pam eich bod yn ystyried bod y wybodaeth yr ydych wedi ei darparu yn gyfrinachol. Os byddwn yn derbyn cais i ddatgelu'r wybodaeth byddwn yn ystyried eich eglurhad yn llawn, ond ni allwn roi sicrwydd y gellir cynnal cyfrinachedd o dan bob amgylchiad. Ni

Gweddnewid ein system gyfiawnder - crynodeb o ddiwygiadau ac ymgynghoriad

ystyriir y bydd ymwrthodiad cyfrinachedd awtomatig a gynhyrchir gan eich system TG, ynddo'i hun, yn ymrwymo'r Weinyddiaeth.

Bydd y Weinyddiaeth yn prosesu eich data personol yn unol â'r DDD, ac yn y rhan fwyaf o achosion, bydd hyn yn golygu na fydd eich data personol yn cael ei ddatgelu i drydydd partïon.

Egwyddorion ymgynghori

Mae'r egwyddorion y dylai adrannau'r Llywodraeth a chyrff cyhoeddus eraill eu mabwysiadu ar gyfer ymgysylltu â rhanddeiliaid wrth ddatblygu polisi a deddfwriaeth yn cael eu nodi yn yr egwyddorion ymgynghori.

<https://www.gov.uk/government/publications/consultation-principles-guidance>

ISBN 978-1-4741-3647-1



9 781474 136471